

“ Mae data dosbarthu carcasau a ryddhawyd yn ddiweddar ar gyfer 2022 wedi dangos bod ŵyn a gwartheg dethol a broseswyd mewn lladd-dai ym Mhrydain Fawr yn cynnwys llai o fraster o'u cymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar sgil-ffeithiau haf sych a chostau mewnbwn fferm uchel ar y sector cig coch. ”

Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



ŴYN

Mae gwybodaeth a gasglwyd o dros 124,000 o garcasau ŵyn mewn lladd-dai ym Mhrydain Fawr yn ystod 2022 yn rhoi cipolwg ar sut y dosbarthwyd carcasau wedi'u pesgi ar draws grid dosbarthu EUROP o ran cydffurfiad a dosbarth braster yn ystod y flwyddyn. Mae'r canlyniadau'n dangos bod 58% o'r carcasau ŵyn yn y sampl pwysau marw wedi'u dosbarthu â chyddfurfiad **R** - yn debyg i 2020, a chynnydd o 0.9 pwynt canran o'i gymharu â 2020.

Roedd twf glaswellt yn gyfyngedig y llynedd wrth i Brydain gael haf mwy sych. Effeithiodd hyn yn ei dro ar amseroedd pesgi ŵyn. Roedd costau mewnbwn ffermydd yn arbennig o uchel y llynedd hefyd, a byddai hyn wedi arwain at nifer o gynhyrchwyr yn lleihau faint o borthiant a brynwyd ar gyfer ŵyn - unwaith eto, gan effeithio ar amseroedd pesgi. Er mwyn lleihau costau, efallai y bydd rhai cynhyrchwyr wedi dadlwytho eu hanifeiliaid cyn cyrraedd eu pwysau targed er enghraifft. Adlewyrchwyd

Canran Carcasau Ŵyn yn ôl Dosbarth Braster ym Mhrydain							
	1	2	3L	3H	4L	4H	5
2020	0.8	16.8	50.0	26.8	5.0	0.5	0.1
2021	1.0	19.5	52.7	22.6	3.9	0.3	0.0
2022	1.9	22.5	51.9	20.2	3.2	0.3	0.0

Ffynhonnell: AHDB

yr effeithiau hyn mewn newidiadau o fewn y dosbarthiadau. Yn 2022, cafodd cyfran uwch o ŵyn ddosbarthiad braster llai o **1** neu **2** o'i gymharu â'r ychydig flynyddoedd blaenorol. Roedd nifer yr ŵyn yn y ddau ddosbarth braster hyn yn cyfrif am 24.4% o'r sampl – sy'n gynydd ar yr 20.5% a gofnodwyd yn 2021, ac ar y 17.6% yn 2020.

Cyflawnodd dros 61% o'r ŵyn a broseswyd yn lladd-dai Prydain y graddau targed (h.y., cydffurfiad **E**, **U** neu **R**, a braster **1**, **2**, neu **3L**) yn ystod 2022. Er ei fod wedi disgyn o dan y 63% a gyflawnwyd yn 2021, mae ffigur 2022 yn parhau i fod yn welliant ar y 57% yn 2020. Roedd cyfran y carcasau

a gafodd ddosbarthiad gradd **R3L** bron i 31% - yn debyg i lefelau blwyddyn gynharach, a 2.2 pwynt canran yn uwch na 2020. Fel arfer, byddai'r radd hon yn cyflawni pris sylfaenol prosesydd, ac felly mae'n galonogol bod dros draean o'r ŵyn a aseswyd wedi cyrraedd y dosbarthiad hwn.



GWARTHEG DETHOL

Mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer gwartheg dethol yn 2022 yn seiliedig ar bron i 1.7 miliwn o garcasau o ladd-dai ym Mhrydain Fawr. Roedd gan y gwartheg dethol o'r arolwg bwysau carcas cyfartalog o 344kg - sy'n ysgafnach na'r cyfartaledd o 345kg a gofnodwyd ar gyfer 2021. Mae'r ffigurau'n dangos bod 48.3% o'r gwartheg dethol wedi cyflawni cydffurfiad **R** - cynnydd o 0.5 pwynt canran ers 2021, a chynnydd o 2.0 pwynt canran o'i gymharu â 2020.

Mewn modd tebyg i'r sampl o ŵyn, roedd cynnydd yn nifer y gwartheg dethol a oedd yn dod ymlaen. Yn 2022, cyflawnodd bron i 13% o'r sampl naill ai'r dosbarthiad braster

1 neu **2**, sy'n nodedig uwch na'r 10.8% yn y flwyddyn flaenorol. Mae'n debyg mai twf glaswellt cyfyngedig a chostau mewnbwn uwch y fferm yw'r rhesymau y tu ôl i'r newid hwn hefyd. Roedd prisiau gât fferm gwartheg dethol yn gryf yn ystod 2022 hefyd, a allai fod wedi annog cynhyrchwyr i gael gwared ar eu hanifeiliaid. Er gwaethaf ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar y sector cig eidion yn 2022, mae cyfran gynyddol o wartheg dethol yn parhau i gyrraedd y graddau targed o **R3** neu **R4L**. Yn 2022, cyflawnodd 38% o wartheg y graddau targed hyn - cynnydd o 0.1 pwynt canran ar y flwyddyn, a 2.4 pwynt canran nodedig yn uwch nag yn 2019.



Dylai cynhyrchwyr cig oen a chig eidion anelu at fodloni gofynion cwsmeriaid a'r farchnad - yn enwedig yn ystod cyfnod lle bydd costau mewnbwn fferm uchel yn anochel yn effeithio ar elw'r cynhyrchydd. Mae'r manylebau hyn yn cael eu sefydlu drwy ddeall gofynion cwsmeriaid tra'n ceisio sicrhau effeithlonrwydd cynhyrchu a phrosesu. Bydd unrhyw

garcasau (cig oen neu gig eidion) a gynhyrchir y tu allan i'r manylebau hyn yn arwain yn ddieithriad at gosbau a chostau uwch i'r rhai yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar arolwg sampl a gynhaliwyd mewn lladd-dai ledled Prydain sy'n dosbarthu carcasau yn ôl grid dosbarthu EUROP. Data o AHDB.

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau — wythnos yn dod i ben 22^{ain} Ebrill

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **275.6c/kg**. Roedd hyn:

- - 8.1c ar yr wythnos flaenorol,
- + 36.1c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 79.9c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 195.7c/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **487.8c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.4c ar yr wythnos flaenorol,
 - 52.7c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.
- Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 484.5c/kg (+ 0.2c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 476.8c/kg (-3.6c), a buchod difa yn 377.4c/kg (-1.5c).

Trwybwn - Mawrth 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 248,200 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 177,700 pen - i fyny 1% ar y flwyddyn.
➢ bustych +0.3%, heffrod +4%, a theirw ifanc -8%.
- Cyfartaledd pwysau carcasu gwartheg dethol = 343.4kg (-5.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 57,700 pen - cynnydd o 3% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau — wythnos yn dod i ben 22^{ain} Ebrill

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **303.7c/kg**. Roedd hyn:

- - 5.4c ar yr wythnos flaenorol,
- + 27.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 50.4c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 253.3p/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£88.20/pen**. Roedd hyn:

- - £11.10 ar yr wythnos flaenorol,
- £11.30 o dan lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 687.0c/kg (+50.7c ar yr wythnos).

Trwybwn - Mawrth 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.4 miliwn pen – cynnydd o 19% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 1.2 miliwn pen – cynnydd o 21% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasu ŵyn cyfartalog = 20.5kg (-0.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 122,000 pen – cynnydd o 5% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau — wythnos yn dod i ben 15^{fed} Ebrill

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **219.3c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.6c ar yr wythnos flaenorol,
- + 54.9c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 65.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 153.8p/kg).


Trwybwn - Mawrth 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 918,700 pen – gostyngiad o 15% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 898,700 pen – i lawr 15% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasu moch heb fagu cyfartalog = 89.0kg (-3.4kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 19,900 pen – i lawr 27% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Mawrth '23

80,400 tonnelli
+1% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid y DU
Mawrth '23

28,500 tonnelli
+15% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU
Mawrth '23

83,000 tonnelli
-18% b-a-f

